



Royal College  
of Physicians

NACAP

## Rhaglen Genedlaethol Archwilio Asthma a COPD (NACAP)

Y prosiect (archwiliad) asthma yn dy ysbyty

Gwybodaeth i blant a phobl  
ifanc 8 oed a hŷn





## Beth yw'r prosiect asthma?

Rwyt ti wedi cael y daflen hon er mwyn i ni roi gwybod i ti am brosiect (archwiliad) y mae ysbytai ar hyd a lled y wlad yn cynryd rhan ynddo, o'r enw Archwiliad Asthma Plant a Phobl Ifanc.

Mae'r prosiect yma'n edrych ar sut mae'r meddygon a'r nyrsys yn gofalu amdanat ti pan wyt ti'n cael pwl o asthma ac mae angen i ti ddod i'r ysbyty. Mae'r prosiect yn ceisio gwneud gofal asthma yn well i blant a phobl ifanc yng Nghymru, Lloegr a'r Alban drwy weld beth sydd angen ei wella.

## Pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu?

O fis Mehefin 2019 tan fis Chwefror 2021 o leiaf, bydd timau ysbytai yn casglu gwybodaeth am y gofal mae plant a phobl ifanc yn ei gael pan fyddant yn gorfod mynd i'r ysbyty oherwydd pwl o asthma.

Bydd yr wybodaeth hon yn rhoi gwybod i ni pa rannau o'r gofal rwyt ti'n ei gael sy'n dda, a pha rannau mae angen eu gwella.

Mae'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn cynnwys:

- > gwybodaeth gyfrinachol amdanat ti (dy rif GIG neu CHI, dy ddyddiad geni a chod post dy gartref) a dy ryw
- > unrhyw driniaethau rwyt ti wedi'u cael cyn i ti ddod i'r ysbyty
- > sut gwnaeth y meddygon/nyrsys ofalu amdanat ti yn yr ysbyty
- > beth wnaeth y meddygon/nyrsys ei wirio a'i roi i ti cyn i ti adael yr ysbyty.

## Pam nad yw'r meddygon wedi gofyn i mi a gânt gasglu'r wybodaeth yma amdanaf?

Rydyn ni wedi cael caniatâd cyfreithiol arbennig i gasglu'r wybodaeth hon amdanat ti heb ofyn. Y rheswm am hyn yw y byddai gofyn i ti neu dy rieni/gofalwyr am ganiatâd tra'r wyt ti'n cael pwl o asthma yn anodd pan nad wyt ti'n teimlo'n dda iawn.



## Beth sy'n digwydd i fy ngwybodaeth?

- > Mae'r ysbytai yn rhoi gwybodaeth mewn cronfa ddata o'r enw 'adnodd gwe'. Bydd cwmni o'r enw Crown Informatics yn gofalu am y gronfa ddata ac yn cadw dy wybodaeth yn ddiogel.
- > Bydd Crown Informatics yn dileu dy wybodaeth gyfrinachol cyn anfon gweddill yr wybodaeth at dîm y prosiect i'w dadansoddi ac i ysgrifennu adroddiadau am ofal asthma mewn ysbytai yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.
- > Bydd ysbytai yn cael eu hadroddiadau eu hunain am ba mor dda maen nhw'n gofalu am blant a phobl ifanc sydd ag asthma. Yna, bydd yr adroddiadau am y gofal hwn ar gael ar-lein.
- > Bydd Crown Informatics hefyd yn rhannu dy wybodaeth gyfrinachol gyda sefydliadau penodol eraill.

Er enghraifft, bydd yn anfon dy wybodaeth at y rhan o'r GIG sy'n cadw gwybodaeth am bwy sydd wedi mynd i'r ysbyty. Mae Crown Informatics yn cael mwy o wybodaeth am dy iechyd a dy ofal ganddynt, ac yn anfon hyn atom ni, ar ôl dileu dy wybodaeth gyfrinachol. Mae hyn yn ein helpu ni i ddeall mwy amdanat ti a dy iechyd.

- > Efallai y bydd y GIG, prifysgolion a sefydliadau eraill yn gofyn am gael defnyddio gwybodaeth y prosiect ar gyfer ymchwil neu resymau cynllunio er mwyn gwneud y gofal yn well. Fel arfer ni fydd y data hwn yn cynnwys gwybodaeth fel dy ddyddiad geni neu rif GIG/CHI, ond mewn achosion prin iawn, efallai y bydd angen inni rannu'r rhain, er enghraifft am resymau statudol. Ni fyddwn yn rhannu unrhyw ddata oni bai fod trefniadau cyfreithiol, moesegol a diogelwch priodol ar waith i gadw dy fanylion yn saff a diogel.



## Beth os nad ydw i eisiau i chi gasglu fy ngwybodaeth?

Bydd y prosiect yma'n gweithio orau os yw'n cynnwys gwybodaeth am gymaint o blant a phobl ifanc â phosib. Ond, mae croeso i ti a dy rieni/gofalwyr ddweud wrth yr ysbyty neu dîm NACAP os nad wyt ti eisiau i ni gasglu dy wybodaeth. Fydd dweud hyn ddim yn newid sut fath o ofal y byddi di'n ei gael o gwbl. Rwy'ti'n helpu meddygon a nyrsys i ofalu am blant sydd ag asthma drwy fod yn rhan o'r prosiect yma – diolch i ti am ymuno.

## Pwy sy'n gweithio ar y prosiect asthma?

Mae'r prosiect asthma yn rhan o Raglen Archwilio Genedlaethol Asthma a COPD. Yr enw byr am hyn yw NACAP.

Mae tîm NACAP yn gweithio yng Ngholeg Brenhinol y Meddygon yn Llundain.

## A oes gennyf ti unrhyw gwestiynau?

Mae croeso i ti ofyn i riant neu ofalwr gysylltu â thîm NACAP.

E-bost: [asthma@rcplondon.ac.uk](mailto:asthma@rcplondon.ac.uk)  
Ffôn: **020 3075 1526**


Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan NACAP hefyd: [www.rcplondon.ac.uk/nacap-CYP-asthma](http://www.rcplondon.ac.uk/nacap-CYP-asthma)

Royal College of Physicians  
11 St Andrews Place  
London NW1 4LE

[www.rcplondon.ac.uk](http://www.rcplondon.ac.uk)



**Royal College  
of Physicians**



Comisiynwyd gan:



**HQIP**  
Healthcare Quality  
Improvement Partnership